

## **Trawsgrifiad - Camau tuag at STEM**

**Eleri:** Bore da, croeso cynnes i chi gyd. Mae'n hyfryd eich gweld chi i gyd yma heddiw. Rwy'n falch iawn eich bod chi i gyd wedi gallu dod i gymryd rhan yn y prosiect hwn. Fy enw i yw Eleri Chilcott ac rydw i'n Rheolwr Ehangu Mynediad yn y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Cafodd prosiect 'Camau tuag at STEM' ei ddatblygu gan y Brifysgol Agored yng Nghymru er mwyn creu cyfres o weithdai dysgu fel teulu mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg.

Rhwng Ionawr 2014 ac Ebrill 2015, cymerodd rhieni a phlant o Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Nedd ac Ysgol Gynradd Godre'rgraig ran mewn amrywiaeth o weithdai STEM. Nod y fenter yw cyflwyno cyfleoedd dysgu addysg uwch i oedolion ac ysbrydoli plant i astudio pynciau STEM yn y dyfodol.

Mae'r prosiect yn rhan o fenter gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a ariannwyd drwy Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach De-orllewin Cymru. Roedd y gweithdai'n cynnwys safle trosedd 'Who done it?' tebyg i CSI; ymchwilio natur leol; y 'Ditectifs Creigiau: Olion traed amser' a 'Dŵr ymhob man: dadansoddi ein hamgylchedd lleol'.

**John:** Gweithdy gwyddonol byr yw hwn sy'n edrych ar hanes bywyd ar y ddaear, a byddwn yn gwneud hyn drwy ddangos ychydig o ffosilau i'r disgyblion - rhai hynafol a rhai modern - a byddwn yn dweud wrthyn nhw, drwy edrych yn ôl drwy hanes ac astudio'r creigiau sydd ar wyneb y ddaear, y gallwn ni ddarganfod rhywfaint am bwy ydyn ni a sut y cyrhaeddwn ni yma.

**Lisa:** Heddiw rydyn ni wedi bod yn edrych ar wahanol briodweddau dŵr. Rydyn ni wedi bod yn edrych ar ddwyseidd, ar gyfaint a hefyd ar dyndra arwyneb. Y nod yw ceisio annog pobl i ddysgu mwy am wyddoniaeth mewn ffyrdd sy'n llawn hwyl ac yn ennyn diddordeb.

**Rhiant un:** Rwy'n credu ei fod yn beth da ein bod ni'n cael cyfle i wyllo, i fod yn rhan o'u dysgu ac i weld sut maen nhw'n dysgu. Rwy'n hoffi'r syniad o addysgu'r plant am yr amgylchedd a'r hyn sydd o'n cwmpas, ac rwy'n credu bod hwn yn gyfle da iawn.

**Rhiant dau:** Wel, mae fy mab, Arfon, wedi cael cipolwg ar y dyfodol o ran beth y gall e ei ddisgwyl pan fydd e'n mynd i'r ysgol uwchradd ac, yn wir i chi, rwy'n credu ei fod e wedi darganfod bod ganddo ddiddordeb yn y pwnc. Mae wir wedi bod yn wych. Diolch yn fawr.

**Rhiant tri:** Maen nhw wir wedi mwynhau; roedd e'n addysgiadol iawn iddyn nhw -

**Plentyn:** Oedd

**Rhiant tri:** Mae wedi bod yn braf gwneud rhywbeth gyda'n gilydd

**Andrew Herbert:** Drwy'r prosiect, rydyn ni wedi llwyddo i gynnau diddordeb y plant mewn gwyddoniaeth, ond yn bwysicaf oll, rydyn ni wedi llwyddo i ddod â'r disgyblion, y rhieni a'r neiniau a'r teidiau at ei gilydd i ddysgu rhwng y cenedlaethau fel rhan o'r prosiect.

**Eleri:** Cafodd y fenter ei datblygu ar y cyd â Chanolfan Hyfforddi Glyn-nedd, clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Cymoedd y Gorllewin ac ysgolion yng Nghwm Tawe Uchaf a Chwm-nedd i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau STEM yn y brifysgol. Hoffai'r Brifysgol Agored yng Nghymru ddiolch yn fawr iawn i'n holl bartneriaid a roddodd gymorth a chefnogaeth i ni i ddatblygu prosiect Camau tuag at STEM.